# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Dôl Y Felin**

**Cartref Dôl y felin**
**Heol y Pentre Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4LR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

14/6/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Dôl Y Felin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 33 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 29/11/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu’n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae'r rheolwr a'r tîm staff yn darparu gwasanaeth sy'n cael ei barchu gan y bobl sy'n byw yn Nôl y Felin. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth drwy ei ymweliadau Rheoliad 73 ac offerynnau archwilio ansawdd.

Mae iechyd a llesiant yr unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Ategir hyn gan y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae’r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad da o'r unigolyn, ei anghenion a'i hoffterau unigol. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ond yn hen ffasiwn mewn mannau. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mae'n lân, ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Llesiant

Mae’r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae’r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gofalu am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae’r cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am ofynion a hoffterau'r bobl.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith i sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymagwedd gywir i ofal. Mae rheolwr ymroddedig, sy'n cael ei barchu gan ei dîm o staff, yn arwain y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosib. Mae’r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau yn glir ynglŷn ag amddiffyn pobl ac mae hwn yn cael ei gefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Cydnabyddir dewisiadau a barn y bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl osod eiddo personol sydd yn bwysig iddynt yn eu hystafelloedd gwely, eitemau fel dodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Cynigir dewisiadau o brydau bwyd a lluniaeth i’r bobl ac maent yn cymryd rhan gymaint â phosibl yn eu gofal.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae’r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda er bod angen ei ddiweddaru mewn rhai mannau.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gallu rhoi manylion da am hanes y bobl a'u hanghenion gofal penodol. Mae'r rhyngweithio rhwng staff a phobl yn garedig ac yn ofalgar ac maent yn siarad yn gadarnhaol am eu rolau ac am weithio yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym: *“Rwy wir yn mwynhau gweithio yn Nôl y Felin”*, *“Mae’n lle hyfryd i weithio”* a *“Rwy eisiau rhoi'r safon o ofal i’r preswylwyr y byddwn i’n ei ddisgwyl i mi fy hun”.*

Mae’r bobl yn hapus â'r gofal y maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff, gwnaethant ddweud wrthym, *“Rwy’n hapus iawn yn y cartref, mae’r staff yn wych!”,* a *“Mae pawb mor garedig”*

Mae’r holl bobl y buom yn siarad â nhw yn dweud wrthym eu bod yn teimlo’n ddiogel yn byw yn Nôl y Felin ac yn gyfforddus yn codi pryder os oes angen. Dywedodd un person wrthym; *“Byddwn i’n siarad ag un o’r merched [gweithwyr gofal] pe bai gen i broblem”* dywedodd person arall wrthym *“Rwy’n gwybod y gallaf siarad â’r staff neu’r rheolwr os ydw i’n poeni am unrhyw beth, hyd yn hyn mae popeth yn wych!”*

Mae manylion da yn y cynlluniau gofal a chymorth ac maent yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Mae anghenion a hoffterau unigol y bobl wedi'u dogfennu'n glir ac yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn ymwneud â'u gofal. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â’r bobl ac mae hyn wedi cael ei nodi'n dda yn eu cofnodion gofal

Mae'r gweithwyr gofal yn ymateb i ymholiadau'r bobl mewn da bryd, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn hamddenol. Mae cyfran dda o'r tîm staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg, a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad.

Mae’r bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac unigol rheolaidd; fodd bynnag, mae’r rhain wedi bod yn brin yn ystod cyfnodau gwaethaf y pandemig. Wrth i gyfyngiadau lacio mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu'r nifer o weithgareddau allanol ac ymweliadau gan ddiddanwyr i'r bobl eu mwynhau dros y misoedd i ddod.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bum seren a cheir bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau dyddiol. Mae bwydlenni'n cael eu diweddaru yn ôl y tymor ac wrth ymgynghori â'r bobl. Mae amser bwyd yn ymddangos yn ddigwyddiad cymdeithasol cadarnhaol a phleserus iawn. Mae prydau yn cael eu cyflwyno'n dda ac mae dewisiadau poeth ac oer ar gael yn rhwydd. Dywedodd y bobl wrthym *“mae’r prydau'n ardderchog, “mae’r bwyd bob amser yn flasus iawn”.*

**Comment [MH1]:** We've assumed that the word 'meal' has been omitted from the English version and have translated accordingly.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risgiau o ran heintiau. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rheolwr yn gweithio gydag Iechyd yr Amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau bod y cartref yn bodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â mesurau atal a rheoli heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae gwaith profi a chynnal a chadw cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi’u teilwra i’r unigolyn ac ar gael yn rhwydd. Mae'r larymau tân o fewn cyrraedd ac mae'r bobl yn ymateb iddynt mewn modd amserol pan fyddant yn canu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, ac mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi’u lleoli ledled y cartref. Mae gweithdrefnau profi COVID-19 ar waith i bob ymwelydd sydd yn dod i gwrdd â'i berthynas yn y cartref. Mae mesurau priodol a diogel ar waith i hwyluso ymweliadau perthnasau a ffrindiau. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae trefniadau ar waith i olchi a sychu dillad y bobl. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw arogleuon drwg.

Mae cynllun y cartref yn galluogi pobl i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Yn bennaf, mae'r amgylchedd yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r addurn mewn rhai mannau wedi dyddio a byddai o fudd iddo gael ei adnewyddu a'i atgyweirio. Mae ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân ac yn amgylchedd dymunol i bobl fwynhau bath. Mae eitemau personol sy’n bwysig iddynt yn ystafelloedd gwely’r bobl gan gynnwys eitemau o ddodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Er mwyn gwneud yr amgylchedd yn fwy cartrefol, dylid ystyried gwaredu nifer yr hysbysiadau o amgylch y gwasanaeth pan fo'n briodol gwneud hynny.

Mae'r gerddi cymunol a'r tir o gwmpas yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnig ardaloedd i bobl gymdeithasu a'u mwynhau yn ystod tywydd braf. Mae ffens newydd o gwmpas yr ardd er diogelwch y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 73 cyson yn ystod y pandemig. Mae AGC wedi derbyn copïau o'i hadroddiadau, sy’n dangos ei bod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r cartref. Cadarnhaodd y staff a'r bobl hyn i ni, dywedodd un *“mae’r [unigolyn cyfrifol] bob amser yn siarad â ni a’r preswylwyr pan fydd hi’n ymweld”* a *“mae hi [yr unigolyn cyfrifol] yn hyfryd ac mae ganddi amser i ni bob tro”.* Mae ystod o archwiliadau’n cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau monitro. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd.

Mae’r staff yn wybodus, ac yn gymwys i ofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae’r staff yn cyflawni ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym am yr hyfforddiant y maent yn ei fynychu ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn unigolion.

Mae cofnodion staff yn dangos eu bod yn derbyn cyfnod sefydlu da, a’u bod yn cael goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am y rheolwr *“Alla i ddim canfod bai ar y gefnogaeth gan y rheolwr”* a *“Mae’r rheolwr wedi treulio amser yn edrych ar ffyrdd o fy nghefnogi. Rwy’n ddiolchgar iawn i’r rheolwr am ei gefnogaeth”.* Mae ffeiliau staff wedi'u trefnu'n dda ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r dogfennau gofynnol. Cedwir contractau cyflogaeth rhai o'r staff yn yr adran Adnoddau Dynol ond dylent fod ar gael yn hawdd i'w harchwilio.

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn canmol y gweithwyr gofal a'r rheolwr *“Maen nhw i gyd yn dda iawn yma, [mae'r rheolwr] yn hyfryd”, “Rwy’n derbyn gofal da, ac mae’r staff i gyd yn garedig iawn”.*

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac maent yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd i gynorthwyo'r staff.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 11/08/2022'